# Mewnblannu dyfais modiwleiddio cyfangoldeb y galon ar gyfer methiant y galon

26 Mehefin 2019

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon, a hynny am nad oes digon o dystiolaeth ynglŷn â pha mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio.

Mae methiant y galon yn golygu nad yw eich calon yn gallu pwmpio gwaed o amgylch eich corff yn ddigon da. Yn y driniaeth hon, caiff dyfais ei gosod o dan groen y frest a'i chysylltu â'r galon gan 2 neu 3 o wifrau sy'n mynd drwy wythiennau mawr. Mae'n darparu curiadau trydanol sy'n gwneud i'r galon gywasgu'n gryfach. Y nod yw gwella gallu unigolyn i wneud ymarfer corff a gwella ansawdd bywyd.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

### *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-3441-6



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.